# Taflen Wybodaeth ar gyfer Arsylwi Uniongyrchol (i'w defnyddio gyda phlant dan 16 oed)

Fy enw i yw: ____________________

Dyddiad heddiw: ____________________

👋 Rwy'n **fyfyriwr gwaith cymdeithasol** ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hynny'n golygu fy mod i'n hyfforddi i fod yn weithiwr cymdeithasol, a rhan o'r hyfforddiant yw gweithio gyda phlant, pobl ifanc, a theuluoedd – gyda'r cymorth a'r caniatâd iawn.

Er mwyn fy helpu i ddysgu a gwella, mae angen rhywun arnaf i sy'n barod yn weithiwr cymdeithasol cymwys i **wylio sut rwy'n gwneud fy ngwaith** ac i roi adborth i fi. **Arsylwi uniongyrchol** yw'r enw ar hyn.

## 🔍 Beth mae hynny'n ei olygu?

Mae'n golygu y bydd gweithiwr cymdeithasol yn fy **ngwylio i** pan fydda i'n gweithio gyda chi.

Gallai hyn ddigwydd yn ystod ymweliad â'ch cartref, mewn cyfarfod, neu ar alwad fideo.

Dydyn nhw ddim yn eich gwylio chi – maen nhw'n **fy ngwylio i**, i weld sut rwy'n gweithio ac yn siarad â chi, iddyn nhw fy helpu i wella yn fy ngwaith.

## 🙋 Pam ydw i'n dweud hyn wrthych chi?

Achos **hoffwn i gael fy arsylwi yn gweithio gyda chi.**

Ond eich dewis chi yw hynny'n gyfan gwbl. Os nad ydych chi eisiau i hyn ddigwydd, mae hynny'n hollol iawn.

**Fydd dweud na ddim yn newid unrhyw beth** am y cymorth y byddwch chi'n ei gael gan weithwyr cymdeithasol nac unrhyw un arall.

## ✅ Os ydych chi'n cytuno:

- Gallwch chi **newid eich meddwl unrhyw bryd**, hyd yn oed yn ystod y sesiwn.
- **Fydd eich enw na'ch manylion preifat ddim yn cael eu rhannu** mewn unrhyw ran o fy ngwaith yn y brifysgol.
- Yn dilyn yr ymweliad, efallai y bydd y person sy'n fy ngwylio i **yn gofyn i chi sut oeddech chi'n meddwl aeth y sesiwn**. Gallwch chi ddweud cymaint neu gyn lleied ag yr hoffech chi - neu ddim byd o gwbl.

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Os ydych chi'n hapus i gymryd rhan, mae ffurflen fer i chi (a'ch rhiant/gofalwr) ei llofnodi.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi siarad â fi, eich gweithiwr cymdeithasol, neu rywun o'r brifysgol:

**Dr Dan Burrows**

Arweinydd Dysgu Ymarfer, Prifysgol Caerdydd

BurrowsDR1@caerdydd.ac.uk

029 2087 5501

**Diolch am ddarllen hwn!**